**Teitl: Effaith Covid-19 yng Nghymru.**

<table>
<tr><td>Teitlau</td><td>Effaith Covid 19 yng Nghymru - Gwaith Ymarferol</td><td>Ffydd ar waith mewn Pandemig?</td><td>Ymateb digidol yr eglwysi a’r capeli</td></tr>
<tr><td>Rhesymeg</td><td colspan="3">YMWADIAD: Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'<br>Drwy ddysgu am Effaith Covid-19 yng Nghymru fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd</td></tr>
</table>

| Teitlau | Effaith Covid 19 yng Nghymru - Gwaith Ymarferol | Ffydd ar waith mewn Pandemig? | Ymateb digidol yr eglwysi a'r capeli |
|---|---|---|---|
| | • Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt<br>**Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |

| Teitlau | Effaith Covid 19 yng Nghymru - Gwaith Ymarferol | Ffydd ar waith mewn Pandemig? | Ymateb digidol yr eglwysi a'r capeli |
|---|---|---|---|
| **Geirfa allweddol** | | Pandemig - haint neu afiechyd sy'n lledu dros y byd i gyd.<br><br>Delwedd – llun. *Image.*<br><br>Haid - casgliad o anifeiliaid/pryfed.<br><br>Animistaidd - pobl sy'n credu bod pob elfen o'r byd naturiol yn cynnwys rhywbeth ysbrydol. *The attribution of a living soul to plants, inanimate objects, and natural phenomena.*<br><br>Tynged - dyfodol, yr hyn sydd o flaen person.<br><br>Parchedig - dyma'r teitl sy'n cael ei roi i weinidogion neu offeiriaid. *Reverend.*<br><br>Cenhadu - mynd i ardal (newydd fel arfer) i rannu neges crefydd benodol e.e. aeth cenhadon o Eglwys Bresbyteraidd Cymru draw i'r India i rannu'r neges Gristnogol gan wynebu peryglon mawr.<br><br>Galluogwr cenhadol - person sy'n mynd at eglwys, grŵp o eglwysi er mwyn eu helpu i gyrraedd at bobl gyda'r neges Gristnogol. *Mission enabler.*<br><br>Caplan - person sy'n cynrychioli crefydd arbennig ac sy'n gweithio mewn sefydliad er mwyn rhoi help a chefnogaeth i bobl e.e. caplan carchar, caplan ysbyty, caplan ffatri.<br><br>Profedigaethus - pobl sydd wedi colli rhywun trwy farwolaeth | Pandemig Cofid 19 – yr afiechyd sydd wedi ymledu ar draws y byd.<br><br>Myfyrdodau – darnau byr ar amrywiol bynciau sy'n ceisio gneud i bobl feddwl.<br><br>Archesgob Cymru – Arweinydd yr Eglwys yng Nghymru.<br><br>Gweinidog – arweinydd ysbrydol mewn capel.<br><br>Mosg addoldy'r Mwslimiaid.<br><br>Gurdwara – addoldy y Sikhiaid. |

| Teitlau | Effaith Covid 19 yng Nghymru - Gwaith Ymarferol | Ffydd ar waith mewn Pandemig? | Ymateb digidol yr eglwysi a'r capeli |
|---|---|---|---|
| | | BAME - pobl sydd o gefndir du, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig eraill. *Black, Asian, and minority ethnic.*<br><br>Atal - rhoi stop ar rywbeth.<br><br>Gorbryder - poeni llawer iawn am bethau. *Anxiety.* | |
| **Geiriau chwilio** | | Pandemig<br><br>Cofid-19<br><br>Coronafeirws<br><br>Coleg y Bala<br><br>Sangkhuma<br><br>Owain Edwards<br><br>Caplan<br><br>Meddyg teulu<br><br>Gweddi | Pandemig<br><br>Cofid 19<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Technoleg<br><br>Addoldai<br><br>Facebook<br><br>Youtube<br><br>Zoom<br><br>Skype<br><br>Ysgol Sul<br><br>Oedfa<br><br>Mosg<br><br>Sikh |

| **Teitlau** | **Effaith Covid 19 yng Nghymru - Gwaith Ymarferol** | **Ffydd ar waith mewn Pandemig?** | **Ymateb digidol yr eglwysi a'r capeli** |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | Bwdhaeth<br><br>Radio Cymru<br><br>S4C |
| **Tasgau** ymestynnol | 'Gwyddoniaeth nid crefydd fydd yn datrys argyfwng coronafeirws.'<br>Trefnwch drafodaeth dosbarth ar y pwnc gan gynnwys areithiau dros ac yn erbyn y gosodiad. Cofiwch gyfeirio at y dystiolaeth sy'n ymwneud â gwyddoniaeth (*e.e. nodweddion y firws, canllawiau glendid/gwisgo masgiau/cadw pellter, ymdrechion labordai i wneud brechiad*) a rôl crefydd (*e.e. gweddi, cysur diwedd oes, cynnal y teulu neu'r gymuned grefyddol, gwaith elusennol o fewn y gymdeithas*) | | |
| Tasgau dosbarth | 1. Mae sawl ardal yng Nghymru a thu hwnt yn trefnu gweithgaredd elusennol. Casglwch wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei drefnu gan grŵpiau crefyddol a grŵpiau eraill yn eich ardal chi.<br><br>2. Gwnewch gasgliad o ddyfyniadau o lyfrau sanctaidd gwahanol grefyddau sy'n tynnu sylw at yr angen i helpu eraill.<br><br>3. 'Ydan ni'n mynd i stopio'r cynllun darparu cinio er mwyn cael gwasanaeth awr ar y Sul?'<br>Mae sylwadau Nia Wyn Morris o Eglwys y Drenewydd yn codi cwestiynau am rôl yr eglwysi yn y dyfodol. Lluniwch dabl gyda phwyntiau o blaid ailafael mewn addoliad a phwyntiau dros barhau â'r gwaith elusen.<br>Pa ochr sydd yn dod allan gryfaf?<br>5. | 1. Dyluniwch boster sy'n cynnig gwasanaeth Caplan mewn ysbyty, ffatri, ysgol neu garchar. Dylai'r poster ddangos y math o wasanaeth mae'r Caplan yn ei gynnig.<br><br>2. Mae llawer o bobl wedi bod yn weddïo yn ystod y cyfnod clo a chyfnod y coronafeirws - rhai sydd heb weddïo ers blynyddoedd. Beth am ysgrifennu gweddi fer yn gofyn am help i chi'n bersonol neu i bobl eraill i wynebu her y feirws neu ysgrifenwch lythyr i godi calon ffrind, cymydog neu berthynas sydd yn gorfod hunan-ynysu yn ystod y cyfnod Cloi.<br><br>3. Gofynnwyd i eglwysi/capeli/temlau/mosgiau gau dros dro er mwyn atal lledaenu'r coronafeirws. Gwrthododd rhai eglwysi yn America wneud hyn gan ddweud fod yn rhaid addoli ac y byddai Duw yn eu hamddiffyn rhag y feirws. Lluniwch baragraff sy'n cyflwyno | 1. Cynlluniwch holiadur i holi aelodau addoldy yn eich ardal ynglŷn â pha mor effeithiol fu'r trefniadau yn ystod y cyfnod clo. Crynhowch gasgliadau'r holiadur er mwyn eu rhannu gydag arweinwyr crefyddol lleol.<br><br>2. Trafodwch a all technoleg fyth gymryd lle perthynas wyneb yn wyneb. Cyfeiriwch at eich profiadau personol yn ystod y cyfnod dysgu o bell.<br><br>3. Lluniwch dabl yn nodi manteision ac anfanteision y cyfryngau cymdeithasol fel modd i gynnal digwyddiadau.<br><br>4. Cynlluniwch wasanaeth crefyddol digidol mewn unrhyw grefydd o'ch dewis neu wasanaeth a fydd yn rhoi cysur i bobl o bob-ffydd a ddim ffydd yn ystod y Cyfnod Cloi.<br><br>5. Pa gyfrwng yn eich barn chi ydi'r un mwyaf effeithiol y gall addoldai ei ddefnyddio? |

| **Teitlau** | **Effaith Covid 19 yng Nghymru - Gwaith Ymarferol** | **Ffydd ar waith mewn Pandemig?** | **Ymateb digidol yr eglwysi a'r capeli** |
|---|---|---|---|
| | <br><br>Dyma boster sydd wedi ymddangos tu allan i lawer o gapeli. Sut mae digwyddiadau'r misoedd a aeth heibio yn adlewyrchu'r geiriau yma gan St.Paul? | dadl yn cytuno hefo hyn, a pharagraff arall sy'n dadlau yn erbyn.<br>4. Darllenwch yr hanesion a'r adnodau isod o'r Beibl Cristnogol.<br><br>Dyma linc i'r holl ddyfyniadau o [beibl.net](beibl.net)<br><br>Yn eich barn chi, pa hanes o'r Beibl fyddai'n helpu person sy'n wael gyda'r coronafeirws fwyaf. Eglurwch pam.<br>- Mathew 8 adnod 14-17 Iachau mam yng nghyfraith Pedr<br>- Luc 18 adnod 35-43 Cardotyn dall yn cael gweld<br>- Luc 17 adnod 11-19 Iachau deg dyn yn dioddef o'r gwahanglwyf<br>Yna darllenwch yr adnodau. Pa adnod fyddai'n helpu person sy'n wynebu problem neu argyfwng yn eich barn chi? Eglurwch pam.<br>- Salm 34 adnod 17-20<br>- Marc 4 adnod 35-41<br>- Hebreaid 4 adnod 16 | Beth fyddech cyngor chi i gymuned grefyddol sy'n awyddus i wneud gwell defnydd o dechnoleg dros fisoedd y gaeaf? |
| **Adnoddau** | | | |

| Teitlau | Effaith Covid 19 yng Nghymru - Gwaith Ymarferol | Ffydd ar waith mewn Pandemig? | Ymateb digidol yr eglwysi a'r capeli |
|---|---|---|---|
| pellach | | | |